

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 39 Tanysgrifiadau blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 NADOLIG 1989

Os yw golygu'r papur yma'n bleser, mae'n boen barhaol i Richard Lewis druan wrth geisio apelio at anrhydedd drwg-dalwyr ac nid un ac nid cant sydd yna o'r rheini.

Canlyniad y pechaduriaid mawr yw cael un cyfle arall, a hwnnw'n hael o deg, i dalu'r cyfan neu'r hyn a fedrent o'u dyled. Ond wêl yr un o'r rhain gopi arall o'r *Casglwr* nes gweld lliw eu harian am y flwyddyn nesaf, sy'n deirpant dyledus yn awr. F'ch helpu cyn rhuthr y Nadolig fe gyhoeddir y rhifyn yma'n gynnar yn Rhagfyr. Ar yr ochr orau bu'r gweddill ohonoch yn gydwybodol o hael, ac er gorfod chwynnu'r drwg-dalwyr gwaethaf mae'r cylchrediad wedi codi i 1,330, a mawr ddiolch i bawb sy'n dal i gadw'r cylchgrawn yma a'i ben o fymryn uwchlaw'r dŵr.

William Hughes (1855-1924)
y cenhadwr o Eifionydd gyda deg disgybl o'r Congo a fyddai'n canu yn Gymraeg trwy Gymru.
A gofiwch chi gyfeiriad Ifas y Tryc - Congo Bach.
O ble daeth y drecsiwn yna?
Bu'n enw hyd yn ddiweddar ar dŷ ger hen orsaf Yr Ynys gerllaw'r Gaerwen, cartre Dewi Wyn.
Yr eglurhad llawn isod.



CAMPAU Y CYMRO YN Y CONGO

GŴR A GYSEGRODD ei allu a'i amser i godi pont genhadol rhwng Colwyn a'r Congo oedd y Parch William Hughes F.R.G.S. Yn anffodus, mae ei hanes bellach ym mwrllwch y gorffennol. Hyd y gwn i ychydig sydd wedi ei 'sgrifennu amdano ar wahân i gyfeiriad T. M. Bassett yn "Bedyddwyr Cymru", a phamffledyn diddorol yn Saesneg gan Ifor Wynne Jones, gŵr y Daily Post sy'n nodi nad oes gofnod amdano yn y Bywgraffiadur Cymreig.

Ganwyd William Hughes yn 1855 yn Tu-hwnt-i'r-afon, Rhoslan, Cricieth a'i fam eglwys oedd Capel-y-Beirdd lle dechreuodd bregethu ym mro Dewi Wyn a Robert ap Gwilym Ddu. Aeth i ysgol Clynog am tua dwy flynedd ac oddi yno i Goleg y Bedyddwyr Llangollen yn 1879. Yn haf 1882 fe'i gwelwyd yn cerdded yn llwythog heibio Bro Dewi i gyfeiriad Yr Ynys. Yn ôl y deallaf, roedd tŷ

JOHN HUGHES, Llangernyw ar WILLIAM HUGHES

Bro Dewi yn cael ei adeiladu ar y pryd a dyma un o'r gweithwyr yn dweud wrth y towr: "Welwch chi y bachgen ifanc acw, mae o ar ei ffordd i'r Ynys i ddal y trên i Lerpwl a chael llong o Lerpwl i'r Congo. mae o am fod yn genhadwr yno. Fe alwyd y tŷ hwnnw yn Congo House, am i William Hughes gerdded heibio ar ei daith tua'r Congo pan oedd y tŷ yn cael ei godi. Newidiwyd yr enw bellach i Bro Dewi.

Gadawodd Cymru yn Awst 1882 a chyrraedd afon Congo Medi'r 22ain yr un flwyddyn. Bu'n gwasanaethu yn y Congo am dair blynedd, ond roedd hinsawdd y wlad yn drech nag ef a bu yn dioddef o'r Maleria.

Ysyaeth, gwaethygodd ei iechyd a chafodd ei gyngori gan feddyg i H.M. Stanley i roi i fyny'r gwaith cenhadol a dychwelyd i Gymru. Fe'i cludwyd ar gwch a dau o fechgyn

duon yn gweini arno gydol y daith i Gymru.

Roedd ganddo weledigaeth y gallasai barhau i genhadu yng Nghymru a chadw ei gysylltiad â'r Congo drwy addysgu'r bechgyn duon yng Nghymru ac yna eu hanfon i'r Congo i efengylu.

Wedi iddo wella dechreuodd roddi ei weledigaeth ar waith a bu yn teithio Gogledd a De Cymru yn amlinellu ei gynllun ac yn pregethu a darlithio a'r bechgyn duon Nkanza a Kiinkasa gydag ef yn cymryd rhan yn canu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gwerthai luniau o'r bechgyn i godi arian i'w cynnal mewn bwyd a dillad.

Yn 1892 cyhoeddodd lyfr *Dark Africa and The Way Out* a'i gyflwyno i Frenin y Belgiaid, Henry H. M. Stanley a Elder Dempster sef Cwmni Llongau Lerpwl. Dyfynnaf: "Congo House

Training institute, Colwyn Bay, North Wales. A letter from His Gracious Majesty Leopold II., King of the Belgians, Cabinet of the King, Palace of Brussels: July 14, 1891.

Sir, I have the honour to make known to you that the King accedes to the request which was addressed to him in your name by Mr H. M. Stanley, consenting to grant his patronage to the establishment founded at Colwyn Bay under the title "Congo House" Training Institute for African Students".

Accept, Sir, the assurance of his very distinguished patronage.

The Chief of the King's Cabinet, Ct. P. Di Borchgram D'Alting.

Mr W. Hughes, Secretary of the Institute at Colwyn Bay.